



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Y Tîm Iechyd Deintyddol Cyhoeddus

Y DEFNYDD O ANESTHETEG CYFFREDINOL WRTH ROI TRINIAETH DDEINTYDDOL I BLANT YNG NGHYMURU

Awduron: Maria Morgan

Comisiynwyd gan: Prif Swyddog Deintyddol Cymru

Dyddiad: Hydref 2016

Fersiwn: Drafft3

Cyhoeddiad/ Dosbarthiad:

- Prif Swyddog Deintyddol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (mewnol)
- Byrddau Iechyd
- Pwyllgorau Deintyddol Lleol

Dyddiad Adolygu: Ebrill 2017

Diben y Ddogfen a Chrynodeb ohoni:

Nod y gwaith hwn yw pennu ffigur cyffredinol ar gyfer triniaethau deintyddol a gynhaliwyd o dan anesthetig cyffredinol i blant rhwng 0 a 17 mlwydd oed yng Nghymru yn ystod 2015-16 a chymharu hynny â data a gasglwyd ers 2011-12. Bydd yr wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Prif Swyddog Deintyddol i fonitro darpariaeth anesthetig cyffredinol a'r ymdrechion i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n briodol.

Cyfeirnod y Cynllun Gwaith:

Cynllun Gwaith y Tîm Iechyd Deintyddol Cyhoeddus

1 Y Defnydd o Anesthetig Cyffredinol wrth roi Triniaeth Ddeintyddol i Blant yng Nghymru

Cefndir

Argymhellodd ymchwiliad 2011 i Iechyd y Geg ymhlith Plant a gynhaliwyd gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data am nifer yr achosion o roi anesthetig cyffredinol i blant a phobl ifanc ar gyfer gwaith deintyddol yng Nghymru yn cael eu casglu ac yn cael ei adrodd yn rhan o fonitro Cynllun Gwên.

Roedd ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor yn cytuno â'r argymhelliad hwn, ac yn cydnabod:

y gallai hyn fod yn ddangosydd defnyddiol o lwyddiant Cynllun Gwên, ond mae'n bwysig casglu'r data hyn ar gyfer Cymru gyfan, gan ddefnyddio dull cadarn a safonol.

O ganlyniad blaenoriaethwyd y cam gweithredu hwn yng Nghynllun Cenedlaethol y Prif Swyddog Deintyddol ar gyfer Iechyd y Geg:

Yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi data ar nifer y plant sy'n cael triniaeth ddeintyddol o dan anesthetig deintyddol bob blwyddyn. ([Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg](#), Mawrth 2013, tudalen 28)

Nid yw anesthetig cyffredinol heb ei beryglon, ac felly dylid ei ddefnyddio dim ond pan fo angen. Dau ffactor sy'n cyfrannu at y lefelau uchel o ddarpariaeth ar hyn o bryd yw iechyd y geg gwael ac anhawster i gael gafael ar ddewisiadau eraill yn hytrach nag anesthetig cyffredinol. O ystyried y gwelliannau a welwyd mewn iechyd y geg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dylai fod gostyngiad yn yr angen i ddefnyddio anesthetig cyffredinol. Mewn rhai mannau yng Nghymru, mae systemau brysbennu yn ceisio atgyfeirio yn fwy priodol i ddewisiadau eraill yn hytrach nag anesthetig cyffredinol.

1.1 Diben

Nod y gwaith hwn yw pennu ffigur cyffredinol ar gyfer triniaethau deintyddol o dan anesthetig cyffredinol a gynhaliwyd ar blant rhwng 0-17 mlwydd oed yng Nghymru yn ystod 2015-16 a chymharu hynny â data a gasglwyd yn ystod 2014-15, 2013-14, 2012-13 a 2011-12.

1.2 Dull

Casglwyd y data drwy gysylltu'n uniongyrchol â rheolwyr darparwyr triniaethau deintyddol yn gofyn am yr wybodaeth ar gyfer 2015-16. Nid oedd y casgliad data hwn yn cynnwys triniaethau deintyddol a gynhaliwyd drwy dawelyddu ymwybodol.

Mae'n bwysig nodi nad oes systemau ar waith ledled Cymru gyfan i greu data manwl gywir ac amserol ynglŷn ag anestheteg cyffredinol deintyddol.

1.3 Casgliadau

Cyflawnwyd cyfanswm o 7,908 o driniaethau deintyddol o dan anesthetig cyffredinol yng Nghymru yn ystod 2015-16. Cyflwynir y rhain fesul Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr yn Nhabl 1 a fesul y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r claf yn byw yn ei ardal yn Nhabl 2. Mae hyn yn cyfateb i 1.17% o'r boblogaeth sydd o dan 18 oed sy'n cael triniaeth deintyddol o dan anesthetig cyffredinol yng Nghymru yn ystod 2015-16 (Tabl 3). Neu mae *un o bob 85 o blant* ledled Cymru yn cael triniaeth deintyddol o dan anestheteg cyffredinol.

Dylai fod gan Fyrddau Iechyd ddulliau cadarn ar waith i gofnodi a monitro data ar anestheteg cyffredinol deintyddol at ddibenion llywodraethu clinigol lleol; yn cynnwys data ar lefel cofnod unigol sy'n rhoi gwybodaeth ddemograffig, manylion y driniaeth a'r math o anesthetig. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn rhwydd pan wneir cais amdani gan Iechyd Cyhoeddus Cymru neu Lywodraeth Cymru. Mae rhai darparwyr gwasanaethau yn gallu gwneud hyn; mae rhai yn gallu darparu is-gyfres o'r wybodaeth fonitro ddelfrydol, ond mae eraill nad ydynt wedi bod mewn sefyllfa i ddarparu'r wybodaeth lawn y gofynnwyd amdani, gweler Tabl 1.

Tabl 1 Y defnydd o anesthetig cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant fesul Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr – 2015-16

BILI y Darparwr	Provider	0-2yrs	3-17yrs	Total
Abertawe Bro Morgannwg	Clinig Parkway			1566
	Ysbyty Treforys	14	129	143
	Ysbyty Tywysoges Cymru	1	72	73
Aneurin Bevan	Kensington Court	0	1342	1342
Aneurin Bevan	Aneurin Bevan (gan gynnwys Ysbyty Brenhinol Gwent)	48	286	334
Betsi Cadwaladr	Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol	2	1167	1169
Cwm Taf	Ysbyty'r Tywysog Siarl	112	299	411
Caerdydd a'r Fro	Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	36	1004	1040
Caerdydd a'r Fro	Ysbyty Brenhinol Morgannwg (Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol Caerdydd a'r Fro drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth)	6	511	517
Hywel Dda	Clinig Parkway			1310
Powys			3	3
CYFANSWM CYMRU				7908

Mae'n ymddangos bod rhai anghysondebau yn y data o ran y modd y cofnodwyd y defnydd o anesthetig cyffredinol wrth roi triniaeth i blant o ran trigolion Powys. Dim ond tair triniaeth ddeintyddol gan ddefnyddio anesthetig cyffredinol a gwblhawyd ar blant dan 18 oed gan ddarparwr ym Mhowys (Tabl 1). Yn ôl Bwrdd Iechyd Powys, cafodd 28 o blant o Bowys driniaeth o dan anesthetig cyffredinol gan Fyrddau Iechyd Lleol eraill yng Nghymru. Roedd y data a anfonwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol eraill Cymru at Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru yn nodi cyfanswm o 27 o blant ar gyfer Powys (Tabl 2). Nododd Bwrdd Iechyd PABM (Ysbyty Treforys), er enghraifft ei fod wedi rhoi triniaeth i 7 o drigolion Powys (Tabl 2) ond nododd Bwrdd Iechyd Powys mai 12 oedd y ffigur hwn. Fodd bynnag, dylid nodi bod y ffigurau anghyson dan sylw yn fach a bod eu heffaith ar y darlun cenedlaethol yn fach iawn.

Tabl 2 Y defnydd o anestheteg cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant fesul Bwrdd Iechyd Lleol y claf – 2015-16

Y BILI y mae'r claf yn byw yn ei ardal	Darparwr	Nifer y cleifion o'r BILI
Aneurin Bevan	Kensington Court	1342
Aneurin Bevan	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	99
Aneurin Bevan	Ysbyty Brenhinol Gwent	330
Aneurin Bevan	Ysbyty Treforys	3
Aneurin Bevan	Ysbyty Tywysoges Cymru	0
Aneurin Bevan	Ysbyty'r Tywysog Siarl	76
Cyfanswm Aneurin Bevan		1850
Abertawe Bro Morgannwg	Parkway	1566
Abertawe Bro Morgannwg	Ysbyty Treforys	85
Abertawe Bro Morgannwg	Ysbyty Tywysoges Cymru	50
Abertawe Bro Morgannwg	Ysbyty'r Tywysog Siarl	6
Abertawe Bro Morgannwg	Caerdydd a'r Fro - Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol - yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg	0
Abertawe Bro Morgannwg	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	15
Cyfanswm Abertawe Bro Morgannwg		1722
Betsi Cadwaladr	Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol	1169
Cyfanswm Betsi Cadwaladr		1169
Cwm Taf	Caerdydd a'r Fro - Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol - yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg	490
Cwm Taf	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	72
Cwm Taf	Ysbyty'r Tywysog Siarl	301
Cwm Taf	Ysbyty Treforys	1
Cwm Taf	Ysbyty Brenhinol Gwent	1
Cyfanswm Cwm Taf		865
Caerdydd a'r Fro	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	850
Caerdydd a'r Fro	Caerdydd a'r Fro - Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol - yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg	27
Caerdydd a'r Fro	Ysbyty Treforys	1
Caerdydd a'r Fro	Ysbyty Tywysoges Cymru	1
Caerdydd a'r Fro	Ysbyty'r Tywysog Siarl	10
Caerdydd a'r Fro	Ysbyty Brenhinol Gwent	2
Cyfanswm Caerdydd a'r Fro		891
Hywel Dda	Parkway	1310
Hywel Dda	Ysbyty Treforys	46
Hywel Dda	Ysbyty Tywysoges Cymru	22
Hywel Dda	Ysbyty'r Tywysog Siarl	2
Hywel Dda	Caerdydd a'r Fro - Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol - yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg	0
Hywel Dda	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	4
Cyfanswm Hywel Dda		1384
Powys	Ysbyty Treforys	7
Powys	Ysbyty Brenhinol Gwent*	1
Powys	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	0
Powys	Ysbyty'r Tywysog Siarl	16
Powys	Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys	3
Cyfanswm Powys		27
CYFANSWM CYMRU		7908

* namyn 4 claf – Caerfaddon, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Kennet a Gogledd Wiltshire ac Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Gorllewin Swydd Gaerloyw

Mae tabl 3 yn dangos nifer y triniaethau o dan anesthetig cyffredinol fesul uned o'r boblogaeth plant. O gofio mai'r prif angen am driniaeth o dan anesthetig cyffredinol yw ymdrin â dannedd yr effeithiwyd arnynt gan

bydredd, byddem yn disgwyl darpariaeth uwch o driniaethau o dan anesthetig cyffredinol mewn ardaloedd â lefelau uwch o bydredd.

Tabl 3 Nifer y triniaethau o dan anesthetig cyffredinol ymhlith y boblogaeth dan 18 oed

BILI	Nifer y plant <18 oed	Nifer yr achosion o anesthetig cyffredinol fesul BILI y mae'r claf yn byw yn ei ardal	& amllder
Powys	27850	27	0.10
Caerdydd a'r Fro	105416	891	0.85
Betsi Cadwaladr	148940	1169	0.78
Aneurin Bevan	133632	1850	1.38
Cwm Taf	66495	865	1.30
Hywel Dda	81028	1384	1.71
Abertawe Bro Morgannwg	110726	1722	1.56
CYMRU	674087	7908	1.17


*Data Cyfrifiad 2011 (wedi'i gyfrifo o grwpiau oedran un flwyddyn).

Noder Nid yw 1 triniaeth dan anesthetig cyffredinol yn cyfateb i 1 plentyn. Efallai bod ambell blentyn wedi cael mwy nag un driniaeth.

Mae'r lefelau uchaf o bydredd ymhlith plant [3, 5 a 12 oed](#) i'w gweld yn ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol Cwm Taf ac Aneurin Bevan. Mae'r cyfraddau uchaf o driniaethau o dan anesthetig cyffredinol a gofnodwyd ym Myrddau Iechyd Lleol PABM ac yn arbennig yn BILI Hywel Dda yn wahanol i'r hyn a fyddai'n ddisgwyledig o ystyried y lefelau pydredd cymedrig a gofnodwyd.

1.4 Cymharu â gweithgaredd blynyddoedd blaenorol

Mae ffigur 1 yn cymharu gweithgaredd 2015-16 yn erbyn data 2014-15, 2013-14, 2012-13 a 2011-12, sef y flwyddyn gyntaf y casglwyd data ar gyfer yr ymarfer hwn ac sy'n gweithredu fel data llinell sylfaen.

Ffigur 1 Gweithgarwch anestheteg cyffredinol 2011-2016


* Mae ffigur 2011-12 wedi'i addasu er mwyn amcangyfrif y nifer y gallai Aneurin Bevan fod wedi'i gofnodi ar gyfer Ysbyty Brenhinol Gwent.

Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi nad oedd ffigurau 2011-12 yn cynnwys data o Ysbyty Brenhinol Gwent ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan, oherwydd na chafodd ei adrodd. Er mwyn gwneud cymhariaeth decach rhwng y pedair blynedd yr adroddir ar eu cyfer, mae llinell sylfaen 2011-12 wedi'i haddasu i gynnwys 214 o driniaethau dan anesthetig cyffredinol (sef ffigur 2012-13). Pe byddem yn tybio bod tua'r un nifer o driniaethau dan anesthetig cyffredinol wedi'u cyflawni yn Aneurin Bevan yn 2011-12, y **llinell sylfaen wedi'i haddasu ar gyfer Cymru** ar gyfer y flwyddyn honno fyddai $9,092 + 214 = 9,306$.

Nifer y triniaethau deintyddol o dan anesthetig cyffredinol i blant yng Nghymru yn 2015-16 oedd 7,908, sef 53 o gleifion yn fwy nag yn 2014-15. Ond mae ffigurau 2015-16 yn dal i gymharu'n ffafriol â'r ffigurau a gofnodwyd rhwng 2011 a 2013 (Ffigur 1). Mae hyn gyfystyr â gostyngiad o 15% (1,388) yn nifer y triniaethau o dan anesthetig cyffredinol i blant ers 2011-12 (gan dybio llinell sylfaen wedi'i haddasu o 9,306).

Mae Ffigur 2 yn cyflwyno gweithgaredd y tair blynedd ddiweddaraf fesul BILL y darparwr.

Ffigur 2 Gweithgaredd anestheteg cyffredinol 2013-2016 fesul Bwrdd Iechyd Lleol y Darparwr



1.5 Trafodaeth

Mae'n bwysig cydnabod bod rhanddeiliaid allweddol wedi mynegi pryder ynglŷn â thystiolaeth o gyfrif dwbl ac anghysondebau eraill yn y data – felly mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli data ar anestheteg cyffredinol.

Wrth adolygu data a gyflwynwyd gan ddarparwyr/comisiynydd mae'n amlwg bod datblygiadau diweddar o ran gwell meini prawf sgrinio cleifion a llwybrau gofal newydd wedi dechrau cael effaith. Yn ystod 2014-15, gostyngodd gweithgarwch anesthetig cyffredinol ar gyfer y grŵp agored i niwed hwn yn Parkway, Kensington Court ac Ysbyty Deintyddol y Brifysgol. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y cleifion rhwng 2014-15 a 2015-16, cynnydd o 72 o gleifion yn PABM a 53 o gleifion yn Hywel Dda.

Er ei bod yn ymddangos bod gostyngiad yn nifer y plant yng Nghymru sy'n cael triniaeth ddeintyddol o dan anesthetig cyffredinol a bod y nifer wedi dechrau sefydlogi erbyn hyn – nid yw hyn yn cyfateb i ostyngiad mewn pydredd dannedd ymhlith plant Cymru – adlewyrchu'r newidiadau mewn protocolau asesu a thrin mae hyn.

Roedd barn broffesiynol a fynegwyd gan randdeiliaid allweddol yn awgrymu y gallai peth o'r gostyngiad hwn adlewyrchu'r sesiynau anestheteg cyffredinol sydd ar gael ac amseroedd aros hwy ac efallai nad yw'n gysylltiedig â gostyngiad yn y galw. Mae'r Gwasanaeth Deintyddol Pediatrig

arbenigol a'r gwasanaethau tawelyddu ymwybodol sydd ar gael, hefyd yn cael effaith ar y defnydd o driniaethau deintyddol pan ddefnyddir anestheteg cyffredinol.


O'i gymharu ag ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol eraill mae darpariaeth anestheteg cyffredinol ym Myrddau Iechyd PABM ac yn enwedig yn Hywel Dda yn uwch na'r hyn a ddisgwylid o ystyried nifer yr achosion o bydredd.

O gofio nad oedd systemau brysbennu effeithiol a gwasanaethau deintyddol arbenigol i blant ar waith ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru yn 2015/16, mae'n ymddangos bod cyfle sylweddol i wella i leihau'r anestheteg cyffredinol deintyddol a roddir i blant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni gostyngiad pellach mewn anestheteg cyffredinol deintyddol, bydd angen i Fyrddau Iechyd wella eu llwybr gofal deintyddol presennol i blant a darparu gwasanaethau atal sylfaenol ac eilaidd ar sail tystiolaeth yn effeithiol trwy leoliadau clinigol a rhai nad ydynt yn glinigol.


Casgliad

Mae niferoedd anestheteg cyffredinol ar gyfer triniaeth ddeintyddol i blant yng Nghymru wedi sefydlogi ar ychydig yn llai na 8,000 yn 2015/16. Mae hyn yn parhau yn sylweddol is na'r ffigurau llinell sylfaen o 2011. Mae'n ymddangos bod y gostyngiad hwn o ganlyniad i newidiadau mewn llwybrau gofal a phrosesau atgyfeirio lleol mewn rhai Byrddau Iechyd.

Ffigur 3(i) Gweithgarwch anestheteg cyffredinol 2011-2015 a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r claf yn byw yn ei ardal



Ffigur 3(ii) Gweithgarwch anestheteg cyffredinol 2011-2015 a gyflwynwyd gan ddarparwyr o fewn ffiniau'r Bwrdd Iechyd Lleol



1.6 Argymhellion

- 1.5.1 Argymhellir bod Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd yn parhau i fonitro'r defnydd o anesthetig cyffredinol wrth roi triniaethau deintyddol i blant, ac ar ôl i'r newidiadau i lwybrau gofal a phrosesau atgyfeirio gael eu gwreiddio ym mhob Bwrdd Iechyd, dylem wedyn fod mewn sefyllfa i asesu unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â gwella iechyd y geg.
- 1.5.2 Mae angen dull canolog o gofnodi, a dull safonol o gasglu data ar anesthetig cyffredinol deintyddol a ddefnyddir wrth drin plant, ac mae angen i'r data fod yn ddigon cadarn i ddiwallu gofynion llywodraethu. Dylai fod gan Fyrddau Iechyd ddulliau cadarn o gofnodi a monitro data ar anestheteg cyffredinol deintyddol at ddibenion llywodraethu clinigol lleol. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn rhwydd wedyn at ddibenion adrodd (yn genedlaethol/rhanbarthol/lleol) er mwyn llywio sut y cynllunnir gwasanaethau.
- 1.5.3 O fewn eu Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg, dylai pob Bwrdd Iechyd ddatblygu strategaethau ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor i leihau'r defnydd o anesthetig cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant. Dylai Byrddau Iechyd nad oes ganddynt systemau asesu safonol a chynllunio triniaethau, ac nad oes ganddynt gyswllt â gwasanaeth tawelyddu ymwybodol a Gwasanaeth Pediatrig arbenigol o fewn eu llwybr gofal anesthetig cyffredinol deintyddol presennol, ailedrych ar eu llwybr gofal. Mae angen o hyd i rai Byrddau Iechyd ystyried a yw contractau hanesyddol ar gyfer anestheteg cyffredinol yn adlewyrchu'r angen presennol, ac a allai datblygu/gwella tawelyddu ymwybodol a gwasanaethau Pediatrig arbenigol o fewn lleoliad gofal sylfaenol/cymunedol leihau'r angen am anesthetig cyffredinol.